Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

# Adroddiad Blynyddol
2021-22

**Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839
swyddfa@cyfieithwyr.cymru
**www.cyfieithwyr.cymru**

**@cyfieithwyr**

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 1 |
| Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru | 2 |
| Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas | 3 |
| Gair gan y Prif Weithredwr | 4 |
| Llywodraethiant a rheolaeth | 5 |
| Yr adroddiad ar weithgareddau 2021–22 | 6 |
| 1. Rhagair | 6 |
| 2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas | 7 |
| 3. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi | 9 |
| 4. Hybu datblygu proffesiynol | 11 |
| 5. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol | 13 |
| 6. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol | 16 |

# Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg <> Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg <> Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg <> Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.
- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg <> Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012–16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.9 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg <> Saesneg: 'cefnogaeth barhaus', fel y nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, sy'n allweddol wrth iddi gyflawni ei swyddogaeth a'i chenhadaeth.

**Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2021–22.**

## Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas, Manon Cadwaladr

Mae hi'n fraint cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2021–22 ar ran fy nghyd-gyfarwyddwyr. Cefais fy mhenodi yn Gadeirydd yn dilyn y cyfnod hwn, felly mae'r diolch am waith y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad yn mynd yn llwyr i'm rhagflaenwyr, i'r Cyfarwyddwyr ac, wrth gwrs, i Geraint a Nia.

Wrth i'r Adroddiad Blynyddol hwn edrych am yn ôl, rwyf am ddefnyddio'r pwt hwn o gyflwyniad i edrych ymlaen a sôn rhywfaint am fy ngweledigaeth i i'r Gymdeithas.

Rwyf i wedi bod yn gyfieithydd ac yn gyfieithydd ar y pryd ers dros ugain mlynedd bellach ac rwy'n dal i ddotio at y gwaith. Er fy mod wrth fy modd efo'r gwaith, rwy'n deall yn iawn pa mor **anodd** ydy cyfieithu ar adegau. O'r herwydd mae sicrhau bod y Gymdeithas yn darparu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant, a datblygiad a chefnogaeth i chi'r aelodau yn uchel iawn ar yr agenda i mi.

Rwyf hefyd yn sylweddoli pa mor **bwysig** ydy'r gwaith mae cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd yn ei wneud ac yn ymwybodol nad yw hynny'n cael ei werthfawrogi'n llawn bob tro. Rwy'n gwybod bod llwyth gwaith pawb yn mynd yn drymach ac yn drymach a bod yr amser rydyn ni'n ei gael i wneud y gwaith yn aml yn mynd yn llai ac yn llai. Mae angen i ni fel Cymdeithas fynd ati i wella'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r proffesiwn a chodi statws y proffesiwn ac yn bendant mae angen recriwtio rhagor o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd.

Mae hi wedi bod yn gwpl o flynyddoedd anodd i gyfieithwyr ac yn enwedig i gyfieithwyr ar y pryd. Mae cyfieithwyr ar y pryd wedi llwyddo i ymdopi ac addasu gan fynd i'r afael â thechnolegau newydd, addasu eu harferion gwaith a sicrhau bod cyfarfodydd dwyieithog wedi gallu parhau.

Mae cyfnod o **addasu** o'n blaenau ni eto wrth i ni feddwl am bethau fel cofion cyfieithu, peiriannau cyfieithu a rhannu adnoddau. Ar yr ochr cyfieithu ar y pryd mae meddalwedd a chaledwedd newydd ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn cael eu datblygu ac mae cyfarfodydd hybrid yn cynnig heriau sydd eto i'w datrys. Rwy'n awyddus iawn i'r Gymdeithas fod yna i gyfieithwyr, er mwyn i ni gyd allu helpu ein gilydd drwy'r newidiadau hyn. Yn y bôn rwy'n meddwl y byswn i'n hoffi ein gweld ni'n bod yn Gymdeithas ychydig mwy cymdeithasol! Yn unol â hynny felly, bydden ni'n hoffi clywed gennych chi'r aelodau. Beth fyddai'n eich helpu chi yn eich gwaith? Rhowch wybod i ni a gadewch i ni ddechrau'r sgwrs. Rwy'n edrych ymlaen at y trafod a'r cydweithio.

Wel, wrth i mi gyflwyno fy hun, mae'n rhaid hefyd ffarwelio â Geraint. Mae Geraint wedi bod yn Brif Weithredwr ar y Gymdeithas ers dros bymtheg mlynedd bellach. Mae ei waith wedi bod yn fanwl ac yn ofalus ac mae wedi arwain y Gymdeithas yn llwyddiannus. Rwy'n siŵr bod pob un ohonom fel aelodau yn diolch yn fawr iawn iddo am ei holl waith trylwyr dros y blynyddoedd. Rydyn ni'n dymuno ymddeoliad hir a hapus i ti, Geraint.

# Gair gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Unwaith eto, hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas. Hi, wrth gwrs, sy'n gyfrifol am waith creiddiol a phwysicaf y Gymdeithas, sef trefnu a gweinyddu'r Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP, yn ogystal â chadw golwg ar y materion ariannol o ddydd-i-ddydd, gwaith a wna'n dawel effeithlon. Heb os, mae hyn yn hwyluso gwaith y Prif Weithredwr yn fawr!

Ddechrau 2022 rhoddodd Huw Tegid Roberts y gorau i fod yn Gadeirydd wedi tair blynedd yn cyflawni'r rôl honno. Hoffwn ddiolch yn fawr iddo am ei gefnogaeth barhaus, ei gyngor doeth a'i arweiniad. Ga'i ddiolch hefyd i David Bullock ac i Claire Richards a gamodd i'r adwy fel cyd-Gadeiryddion dros dro tan yr etholwyd Manon Cadwaladr yn Gadeirydd ddechrau Ebrill 2022. Wrth ei chroesawu i'r swydd, ga'i ddiolch iddi am y brwdfrydedd a ddangosodd wrth gael y cynnig. Gall pawb fod yn hyderus yn ei harweiniad tawel ac effeithiol wrth i'r Gymdeithas gamu i gyfnod newydd.

Gaf fi hefyd ddiolch i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas. Rhoddodd Lindsey Jones a Catrin Beard wybod y byddant yn rhoi'r gorau i fod yn Ddirprwyon ddiwedd 2022, felly, ga'i ddiolch yn fawr iddyn nhw am eu gwaith effeithiol a chaboledig dros nifer o flynyddoedd.

Mae nifer o aelodau, ac eraill, yn gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n cyfrannu at waith y Gymdeithas fel arholwyr a marcwyr a goruchwylwyr yr arholiadau, fel tiwtoriaid gweithdai, a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar eu galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Mae'r diolch olaf i'n haelodau, am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb i'r Gymdeithas, a hefyd am eu proffesiynoldeb a'u balchder yn eu gwaith.

Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch am y grant hwn sydd wedi rhoi sail gref i'r Gymdeithas allu parhau â'i chenhadaeth bwysig o gynnal safonau cyfieithu proffesiynol.

Hwn hefyd yw fy Adroddiad Blynyddol olaf wedi dros 15 mlynedd fel Prif Weithredwr, swydd sydd wedi rhoi cryn foddhad i mi. Bu sawl uchafbwynt wrth gryfhau strwythurau a threfniadau'r Gymdeithas ac wrth wireddu nifer o ddatblygiadau cyffrous er lles y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Mae'r byd cyfieithu a'r Gymdeithas wedi gweld newidiadau sylweddol ers 2007.

Gwelwyd sawl datblygiad arwyddocaol sydd wedi hwyluso gwaith cyfieithwyr, yn enwedig ym myd technoleg, ac mae Llywodraeth Cymru i'w chanmol am ariannu cynlluniau sy'n benodol ar gyfer y Gymraeg. Bydd y datblygiadau hyn, ac eraill, yn parhau i weddnewid y ffordd mae cyfieithwyr yn mynd ati i gyflawni'r gwasanaeth pwysig y maent yn ei gynnig wrth hyrwyddo dwyieithog a defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas hithau wedi datblygu a thyfu yn ystod y cyfnod hwn. Bellach mae ganddi tua 400 o aelodau, twf o dros 30% ers 2007. Gall barhau i gynyddu ei haelodaeth, a hoffwn annog cyfieithwyr nad ydynt eto'n aelodau ohoni i ddod yn aelodau ac ymhyfrydu eu bod yn perthyn i gymuned broffesiynol, rhywbeth a fydd yn siwr o godi proffil a statws y proffesiwn.

Diolch yn fawr i bob un ohonoch. Bu'n fraint ac yn bleser.

# Llywodraethiant a rheolaeth

## Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i corfforwyd yn 2003. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Prif Weithredwr y Gymdeithas, Geraint Wyn Parry, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Gwasanaethodd y canlynol yn ystod 2021–22: David Bullock, Bethan M. Evans, Fiona Gannon, Steffan Gealy, Hywel G. Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Ifan Prys, Claire Richards, Huw Tegid Roberts.

Yng nghyfarfod ByC a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2022, ymddiswyddodd Huw Tegid Roberts fel Cadeirydd wedi tair mlynedd yn y rôl ac etholwyd David Bullock a Claire Richards yn gyd-Gadeiryddion dros dro. Cytunodd ByC yn unfrydol yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2022 i ethol Manon Cadwaladr, Cymen, yn Gadeirydd. Aed ati i'w hethol yn Gyfarwyddwr o 1 Ebrill 2022.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 8 Gorffennaf 2022, 4 Tachwedd 2022, 1 Chwefror 2022, 18 Chwefror 2022 (cyfarfod arbennig i drafod y gadeiryddiaeth), ac ar 22 Mawrth 2022, pob un yn rhithwir.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 23 Medi 2022 yn rhithwir. Roedd 16 o aelodau'n bresennol. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol a chyfrifon 2020–21, yn ogystal â chadarnhau ethol Cyfarwyddwyr. O ganlyniad i'r olaf, ni fu newid ymhlith Cyfarwyddwyr y Gymdeithas.

Mae gan y Gymdeithas bedwar Bwrdd/Pwyllgor arall.

Mae dau ohonynt yn gysylltiedig â'r drefn arholi, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau); a'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd ag aseswyr y Prawf CAP hwnnw). Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

Yn ddau bwyllgor arall yw'r Pwyllgor Materion CAP (a gyfarfu unwaith yn ystod y flwyddyn) a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol.

## Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y swyddi a chostau swyddfa. Amod o'r grant oedd yr angen i gyflawni targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Roedd y llythyr yn cynnig y grant yn nodi mai ei ddiben 'yw'ch galluogi i barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol, gan ddatblygu'ch gweithgareddau [...] sy'n ymwneud yn benodol â'r drefn asesu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, a sicrhau safonau proffesiynol'. Nododd y llythyr hefyd fod gwaith y Gymdeithas yn 'cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned'.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £45,195.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £179,291 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Emyr Mortimer Cyf, Caernarfon, (a brynodd Owain Bebb a'i Gwmni ym mis Mawrth 2022), yn unol â'r darpariaethau arbennig o Ran 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain ac FRS 102, Rhan 1A.

# Yr adroddiad ar weithgareddau 2021–22

## 1. Rhagair

Mae'r adroddiad ar weithgareddau 2021–22 ar y tudalennau nesaf wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion strategol Cynllun Strategol y Gymdeithas. Bydd yr adrannau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas:
- cynnal a chynyddu'r aelodaeth;
- hybu datblygu proffesiynol;
- cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol;
- codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg <> Saesneg ymhellach, ynghyd â'i swyddogaeth bwysig fel lladmerydd yn eiriol dros fuddiannau ei haelodau.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd y rhaglen waith a osodwyd ar gyfer 2021- 22 a thargedau grant Llywodraeth Cymru, rhaglen yr amharwyd arni i ryw raddau gan Covid-19. Bwriad y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn oedd:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr Cymraeg <> Saesneg y mae'n eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ei chysylltiadau â chyrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Serch cyfyngiadau Covid-19, llwyddwyd i barhau i gynrychioli diddordebau'r aelodau, cynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir yn gryf i ymweld â gwefan y Gymdeithas – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/ – lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2021–22.

# 2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas

**Amcan strategol 1 yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.**

*Sylwer, mae'r bennod hon yn ymwneud â materion aelodaeth y Gymdeithas yn unig. Mae'r bennod nesaf yn ymdrin â'r drefn arholi.*

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

## 2.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Gymdeithas 405 o aelodau, fel a ganlyn:
Aelodau Cyflawn: 207
Aelodau Sylfaenol: 178
Aelodau CAP: 81 *
* O'r 81 Aelod CAP, mae 20 yn Aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (48) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (13). Mae pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 18 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Cafwyd un aelod newydd, ac roedd yn gymwys i fod yn aelod ers 2019.

Roedd yn galondid o'r mwyaf ac yn fater o falchder fod aelodaeth y Gymdeithas wedi cynyddu ychydig yn ystod y flwyddyn, o 399 i 405 serch methu cynnal yr arholiadau fel y bwriadwyd. Ni chafodd Covid-19 unrhyw effaith ar deyrngarwch yr aelodau i'r Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg <> Saesneg. Roedd 39% o'r aelodau hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau oedd yn gweithio yn y sector preifat, roedd 42% ar eu liwt eu hunain a 19% yn gweithio i gwmnïau cyfieithu.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Mae gennym drefn deg a chadarn wrth weinyddu'r ymgyrch ailymaelodi flynyddol yn ystod Ebrill a Mai. O ganlyniad, o 1 Mehefin dim ond aelodau sydd wedi talu tâl aelodaeth y flwyddyn sydd ar y rhestr o aelodau'r Gymdeithas, a dim ond y rhain sy'n ymddangos ar y wefan yn y gwasanaeth i ddod o hyd i gyfieithydd ac yn y rhestr A-Z (oni bai eu bod wedi gofyn i'w manylion beidio ag ymddangos).

Gweithredwyd yr ymgyrch ailymaelodi flynyddol yn Ebrill a Mai fel arfer. Yn yr ymgyrch hon targedwyd aelodau 2020–21, yn ogystal â chyn-aelodau ac ymgeiswyr llwyddiannus yn yr arholiadau nad oeddynt wedi ymaelodi yn dilyn eu llwyddiant ac a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o dan y rheol sydd gan y Gymdeithas ar gyfer aelodaeth. Ar ddiwedd yr ymgyrch hon, roedd 393 wedi talu'u tâl aelodaeth (y nifer uchaf erioed i ail-ymaelodi yn sgil yr ymgyrch flynyddol yn hanes y Gymdeithas, ac un yn fwy na'r record a osodwyd y llynedd!). Roedd y nifer hwn yn cynnwys chwech a adferodd eu haelodaeth ac un aelod newydd. Rhoddodd dau wybod nad oeddynt am barhau eu haelodaeth oherwydd ymddeoliad.

Oherwydd yr amgylchiadau, penderfynwyd rhoi 25% o ostyngiad yn y tâl aelodaeth yn 2021–22, sef £112.50 yn hytrach na £150; ac i Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd gyntaf eu haelodaeth, £105 yn hytrach na £140, fel y gwnaed yn 2020–21.

Cafodd pob aelod Dystysgrif Aelodaeth pan oedd wedi talu ei dâl aelodaeth.

Cafodd pob aelod gopi o'r Llawlyfr Aelodaeth. Y bwriad oedd y byddai'n ateb y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cwestiynau a allai godi ynghylch aelodaeth o'r Gymdeithas.

Cafodd Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP, a'r Cwmnïau Cydnabyddedig ddefnyddio'r logos arbennig a ddyluniwyd ar eu cyfer.

Cynigiwyd nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau.

Mae gan bob aelod ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, sy'n cynnwys Proffil. Fe'u hanogir hwy i sicrhau fod y wybodaeth yn y Cofnod Aelodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac i ddefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn i'r eithaf.

Dosbarthwyd gwybodaeth berthnasol a defnyddiol yn y Bwletin Newyddion rheolaidd. Ymhlith y buddion eraill roedd gwybodaeth am waith a swyddi cyfieithu a gostyngiadau ar gyfer gweithdai (ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau na'r Diwrnod i'r Aelodau).

## 2.2 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth roedd holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braf dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

## 2.3 Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol

Ers rhai blynyddoedd bu trefn y Maes Arbenigedd Proffesiynol yn fodd o gydnabod Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP. Roedd tri Maes Arbenigedd Proffesiynol: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd, Cyfieithu Deddfwriaethol a Chyfieithu Cyfathrebu. Penderfynwyd rhoi syniad y Maes Arbenigedd Proffesiynol o'r neilltu, ond nid ei diddymu, o 1 Ebrill 2022.

Ni fydd hyn yn cynnwys MAP: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi) a gaiff ei ail-enwi yn CAPwyr Cymraeg Llys a Thribiwnlys oherwydd pwysigrwydd strategol y maes hwn i'r Gymraeg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Roedd 23 Aelod CAP yn perthyn i'r garfan hon ac roedd disgwyl mai dim ond yr aelodau CAP hyn fyddai'n cael eu galw i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawiadau yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

## 2.4 Cydnabyddiaeth i eraill

Trwy drefn y **Cwmni Cydnabyddedig**, sy'n ddull o gydnabod cwmnïau cyfieithu, cafodd 9 cwmni eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig. Ar ddechrau'r flwyddyn, penderfynwyd parhau i gydnabod Cwmnïau Cydnabyddedig ar sail eu rhestrau aelodau ar ddechrau 2020–21 gan na chynhaliwyd Arholiadau Aelodaeth Testun ers Hydref 2019 ac felly ni chafodd cyfieithwyr yn y cwmnïau hyn gyfle uwchraddio eu haelodaeth.

Cynigir **cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus ac yn y trydydd sector f**el rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn amodol ar fodloni meini prawf. Cafodd 11 sefydliad eu cydnabod yn Sefydliad Cydnabyddedig a 4 yn Sefydliad Cyswllt. Penderfynwyd rhewi'r gydnabyddiaeth hon i sefydliadau cyhoeddus o 1 Ebrill 2022, ond y byddai'r rhai presennol yn cadw'r gydnabyddiaeth.

Mae cydnabyddiaeth yn **Fyfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac mae'n fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Cafwyd 6 Myfyriwr Cyswllt newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfanswm o 19 Myfyriwr Cyswllt wedi'u cydnabod yn y categori hwn.

Mae'r categori **Aelod sydd wedi ymddeol** ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad. Cofrestrodd 2 gyn-aelod yn ystod y flwyddyn. Roedd 32 o gyn-aelodau yn perthyn i'r categori hwn.

Sylwer, nid yw'r un o'r categorïau hyn yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas: maent yn gydnabyddiaeth gan y Gymdeithas yn unig.

# 3. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi

**Amcan strategol 1 yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.**

*Sylwer, mae'r bennod hon yn ymdrin â threfn arholi'r Gymdeithas, sef yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.*

## 3.1 Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Er i ni glustnodi dyddiad ym mis Ebrill 2021 ar gyfer yr Arholiadau Aelodaeth Testun, yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau a'r ansicrwydd a oedd yn bodoli ar y pryd oherwydd Covid-19, penderfynwyd na ellid cynnal yr arholiadau.

Yn achos Arholiadau Aelodaeth Testun mis Hydref 2021, eto oherwydd yr ansicrwydd a fodolai, penderfynwyd cynnal yr arholiadau ar y lefel Gyflawn yn unig.

Cynhaliwyd yr arholiadau hyn ar 9 Hydref 2021 yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth; Adeilad Julian Hodge, Prifysgol Caerdydd; a Choleg Glynllifon, ger Caernarfon.

Cyhoeddwyd Llawlyfr Arholiadau (Cyflawn) 2021, llawlyfr oedd yn cyflwyno'r holl wybodaeth am yr arholiadau.

Safodd 11 ymgeisydd yr arholiadau, nifer tebyg o ymgeiswyr i'r hyn a gafwyd y tro diwethaf pan gynhaliwyd yr arholiadau ar y lefel hon yn 2019, sef 9 i'r Gymraeg a 5 i'r Saesneg (safodd 3 y ddau bapur). Llwyddodd 2 i'r Gymraeg a 2 i'r Saesneg. Roedd pob un o'r 3 ymgeisydd eisoes yn aelodau o'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd y BAT yn rhithwir ar 9 a 10 Tachwedd (y naill i'r Gymraeg a'r llall i'r Saesneg).

Wrth gloriannu'r arholiadau hyn, braf dweud bod enghreifftiau o gyfieithu graenus oedd yn taro deuddeg yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr. Yn anffodus, anhawster i gynnal safon eu gwaith gorau ar draws y tri darn oedd yn atal yr ymgeiswyr aflwyddiannus rhag llwyddo, serch bod hynny yn bendant o fewn cyrraedd pawb ohonynt.

Rhaid pwysleisio bod Aelodaeth Gyflawn yn cymeradwyo cyfieithwyr fel rhai a fydd yn cyflwyno gwaith di-fai heb i neb arall fwrw golwg drosto. O'r herwydd, rhaid sicrhau bod yr ystyr yn cael ei gyfleu'n gwbl gywir bob tro, ac nad oes unrhyw wallau esgeulus yn llithro trwy'r rhwyd. Yn ogystal â medru cyfieithu darn yn raenus, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ar y lefel hon fedru ei brawfddarllen yn drylwyr, er mwyn i unrhyw fân frychau gael eu cywiro cyn cyflwyno'r gwaith yn derfynol.

Mae darn 'gwaith cartref' yn rhan o'r arholiad ar y lefel hon bellach. Mae'r darn hwn yn gyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau, heb fod o dan bwysau amodau arholiad. Siom, felly, oedd gweld un ymgeisydd yn cyflwyno darnau arholiad graenus, ond heb lwyddo i gynnal y safon honno yn y darn 'gwaith cartref'. Gan fod sawl enghraifft o hyn wedi codi mewn gwahanol arholiadau, mae'n werth pwysleisio unwaith yn rhagor bod disgwyliadau'r arholwyr yn uchel iawn o ran y darn 'gwaith cartref', gan nad yw pwysau amser mor drwm yn achos y darn hwnnw, ac nid yw o dan amodau arholiad. Ni ddylai unrhyw ymgeisydd fynd ati i gyfieithu'r darn 'gwaith cartref' yn frysiog na heb ystyried y cynnwys yn ofalus, gan fod yr amser a'r rhyddid ychwanegol a ganiateir yn golygu bod disgwyl iddynt wneud unrhyw ymchwil angenrheidiol, a chanfod yr union air bob tro.

Ymunodd 5 o Aelodau Cyflawn â'r **Gofrestr Marcwyr Arholiadau.**

## 3.2 Y Prawf CAP

Er i ni glustnodi dyddiad ym mis Mawrth 2021 ar gyfer Diwrnod y Prawf CAP, sef cynnal Prawf CAP i'r Saesneg a Phrawf CAP i'r Gymraeg, bu'n rhaid ei ohirio oherwydd Covid-19. Wrth aildrefnu, penderfynwyd cynnal Prawf CAP i'r Saesneg yn unig ar 15 Mehefin 2021, a pheidio â chynnal Prawf CAP i'r Gymraeg. Cynhaliwyd y Prawf CAP i'r Saesneg o bell trwy Zoom gyda CTV Sound Studios, Caerdydd, yn recordio pob ymgais. Wrth ei gynnal fel hyn mabwysiadwyd rhai trefniadau newydd i adlewyrchu'r dull hwn o gynnal y Prawf CAP, gan gynnwys sicrhau fod pob ymgeisydd yn bodloni nifer o ofynion technegol; gofyn i'r goruchwyliwr nodi problemau technegol; a darparu adroddiad technegol i'r aseswyr.

Cafwyd 7 ymgeisydd yn y Prawf CAP hwn. Llwyddodd 3 ohonynt, pob un ohonynt eisoes yn aelod o'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd y Bwrdd CAP yn dilyn Prawf CAP Mehefin ar 16 Gorffennaf yn rhithwir.

Er i bob un o'r ymgeiswyr ddangos addewid ac i'r cryfaf gyfieithu'n eglur ac ystwyth mewn Saesneg naturiol ac idiomatig, anwastad oedd y safon. Cafwyd enghreifftiau o gyfieithu effeithiol ym mhob ymgais, ond methodd sawl un â chynnal momentwm wrth i'r traethu gyflymu. Efallai mai diffyg stamina oedd i'w gyfrif am hyn.

Teimlwyd fod gan yr ymgeiswyr, at ei gilydd, leisiau dymunol a llwyddodd rhai i argyhoeddi gyda chyfieithiadau cywir a thechneg gadarn. Ond, yn rhy aml, nid oedd y cyfieithu'n llifo'n naturiol nac yn llyfn, a phrin oedd yr ymdrechion i wahaniaethu rhwng siaradwyr. Roedd tueddiad, ar brydiau, i'r cyfieithu fod yn herciog ac anwastad, ac roedd geiriau ac ebychiadau llanw ac ansicrwydd a nerfusrwydd – sy'n ddealladwy dan amodau prawf – yn brigo i'r wyneb gan lesteirio'r mynegiant.

Roedd i bob ymgeisydd ei rinweddau, ac anogir yr ymgeiswyr aflwyddiannus i fanteisio ar bob cyfle i ymarfer a magu profiad a hyder cyn rhoi cynnig arall ar y Prawf CAP.

Ni chofrestrodd neb ar gyfer y naill Brawf CAP na'r llall, felly, ni chynhaliwyd Diwrnod y Prawf CAP ar 8 Chwefror 2022.

# 4. Hybu datblygu proffesiynol

**Amcan strategol 2 yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd yr aelodau.**

## 4.1 Gweithgareddau datblygu proffesiynol a hyfforddiant

Serch gorfod lleihau'r gweithgareddau hyn oherwydd Covid-19, nid oedd hynny'n golygu nad oedd y Gymdeithas yn parhau i gydnabod pwysigrwydd yr angen i'w haelodau a chyfieithwyr eraill roi sylw dyledus i'w datblygu proffesiynol. Trefnwyd gweithdai ar-lein yn chwarter ola'r flwyddyn; cynhaliwyd yr e-weithdy cyfieithu bach deirgwaith ar wahanol adegau o'r flwyddyn; a threfnwyd hyfforddiant wedi'i deilwra; yn ogystal â chynyddu nifer yr Ymarferion Cyfieithu (lefel Sylfaenol) ar y wefan.

Trefnwyd tri **gweithdy**, pob un yn rhithwir, fel a ganlyn:

- 'Cryfach gyda'n gilydd: rhannu adnoddau cyfieithu yng Nghymru', gweithdy a gynhaliwyd ar y cyd ag Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, ac o dan arweiniad Stefano Ghazzali. Bwriad y gweithdy hwn oedd cyflwyno'r project Cofion Cyfieithu Agored Cymraeg Cenedlaethol cyntaf ac annog cyrff cyhoeddus i gefnogi'r project arloesol hwn trwy rannu eu cofion cyfieithu. Cymerodd 15 ran yn y gweithdy.

- 'Paratoi at yr Arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg' o dan arweiniad Lindsey Jones ac Eirlys Williams. Cymerodd 15 ran yn y gweithdy.

- 'Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg' o dan arweiniad Sylvia Prys Jones. Cymerodd 16 ran yn y gweithdy.

Parhawyd i gynnal yr **e-weithdy cyfieithu bach** oherwydd fod i'r fformat hwn ei rinweddau. Ynddo, roedd y dysgwyr yn cyfieithu un darn yn unig ac yn cael wythnos i lunio'u cyfieithiad. Ym Mehefin 2021, cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu bach ar y ddwy lefel (Cyflawn a Sylfaenol) ac yn y ddau gyfeiriad (i'r Gymraeg ac i'r Saesneg); ac ar y lefel Gyflawn cofrestrodd 16 unigolyn (14 i'r Gymraeg a 4 i'r Saesneg), ac ar y lefel Sylfaenol cofrestrodd 14 unigolyn (13 i'r Gymraeg a 3 i'r Saesneg). Yn Hydref a Tachwedd 2021, cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu bach ar y lefel Sylfaenol yn unig ac yn y ddau gyfeiriad; a chofrestrodd 24 unigolyn (24 i'r Gymraeg a 4 i'r Saesneg). Ar y lefel Gyflawn yn unig ac yn y ddau gyfeiriad y cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu bach ym Mawrth 2022; a chofrestrodd 9 unigolyn (7 i'r Gymraeg a 4 i'r Saesneg).

Roedd y rhai a fanteisiodd ar y gweithdai hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain, yn ogystal ag unigolion oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd.

Ymatebwyd i geisiadau am **hyfforddiant wedi'i deilwra** gan sefydliadau. Trefnwyd dwy raglen o hyfforddiant wedi'i deilwra i gyfieithwyr Partneriaeth Cyd-Wasanaethau'r GIG ac i gyfieithwyr Cyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Defnyddiwyd darnau'r e-weithdy cyfieithu bach ar gyfer llunio'r **Ymarferion Cyfieithu (lefel Sylfaenol)** i'w gosod ar wefan y Gymdeithas. Ychwanegwyd 2 ymarfer newydd i'r wefan, y ddau i'r Gymraeg. Mae 24 ymarfer ar y wefan, 17 i'r Gymraeg a 7 i'r Saesneg.

Cynigiwyd yr Ymarfer CAP ar ddau achlysur yn Hydref a Tachwedd, a hynny o bell gyda CTV Sound Studios yn recordio pob ymgais. Cofrestrodd 6, pob un i'r Saesneg ac un i'r Gymraeg.

## 4.2 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision

'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' yw teitl cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y Gymdeithas. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w hanghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

## 4.3 Y Gronfa Sbarduno

Wrth i'r Gymdeithas newid y drefn a chyflwyno ysgoloriaeth ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn hytrach na gwobr ar ei diwedd hi yn achos cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth, dyfarnwyd gwobr ac ysgoloriaeth yn 2021.

Dyfarnwyd gwobr 2020–21 i Debbie Williams, Nefyn. Fe'i hysbrydolwyd i newid gyrfa o fod yn athrawes gynradd a dilyn y cynllun gan ei merch hynaf, Gwen, a enillodd MA ar y cynllun yn 2018.

Dyfarnwyd ysgoloriaeth 2021–22 i Elan Grug Carter o Wrecsam a fu'n astudio'n amser llawn ar gyfer yr MA.

Oherwydd na chynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun, ni chafwyd cyfle i wobrwyo'r ymgeiswyr mwyaf addawol yn arholiadau Sylfaenol y Gymdeithas, os bydd teilyngdod, sef Gwobr Goffa Wil Petherbridge (a sefydlwyd yn 2007 ar gyfer yr ymgeisydd mwyaf addawol yn yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg) a Gwobr Berwyn (a sefydlwyd yn 2017 ar gyfer yr ymgeisydd mwyaf addawol yn yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Saesneg).

# 5. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

**Amcan strategol 3 yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg <> Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.**

## 5.1 O fewn y byd cyfieithu

Er na chafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â phenaethiaid cwmnïau cyfieithu ac unedau cyfieithu mewn sefydliadau cyhoeddus, bu'r Gymdeithas mewn cysylltiad â'r rhain mewn ffyrdd eraill.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters (a'r grŵp ITI Cymru/Wales), Chartered Institute of Linguists a'r National Register of Public Service Interpreters. Daw'r Gymdeithas i gysylltiad uniongyrchol â'r rhain ac eraill trwy ei haelodaeth o Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél a chanddo'r nod o gynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, yn arbennig yn y sector cyfiawnder. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli ar y Pwyllgor Llywio gan y Prif Weithredwr.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators, neu FIT, sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol. Bu'r Gymdeithas yn ymwneud â FIT ar lefel ryngwladol ac â'i changen Ewropeaidd.

## 5.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Gonsortiwm Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bwriad y Consortiwm yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd a gynigir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth a'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiwm yn cynnig arweiniad a chyngor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rhychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr.

Cyfrannodd y Gymdeithas sesiwn dysgu i'r Cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth.

## 5.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

**Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**
Mae'r Gymdeithas yn aelod o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, a gaiff ei gydlynu a'i weinyddu gan Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Parhaodd y Gymdeithas i weithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar faterion yn ymwneud â chyfieithu.

**Gwasanaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLlTEM)**
Mae'r bartneriaeth rhwng y Gymdeithas ag Uned Iaith Gymraeg GLlTEM a'r farnwriaeth yng Nghymru yn un bwysig ac allweddol yn y gwaith o sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth CAP Cymraeg <> Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bu'r Prif Weithredwr a Hywel Hughes, Pennaeth Uned y Gymraeg GLlTEM, mewn cyswllt rheolaidd ynghylch materion yn ymwneud â CAP yn y llysoedd.

Cyfarfu'r Gweithgor Cyfieithu ar y Pryd mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn weithgor ar y cyd rhwng GLlTEM, y farnwriaeth a'r Gymdeithas, dan gadeiryddiaeth Barnwr Cyswllt y Gymraeg ac yn atebol i Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor. Ei fwriad yw adolygu'r holl drefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau o'r safon uchaf. Mae 5 o Aelodau CAP y Gymdeithas yn aelodau ohono yn ogystal â'r Prif Weithredwr. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r gweithgor.

Yn dilyn datganiad yr Arglwydd Wolfson yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ddechrau 2022 ynghylch cynnal adolygiad o gyfieithu ar y pryd yng nghytundeb ieithoedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, anfonwyd llythyr ato yn tynnu sylw at y trefniadau ar gyfer CAP yn llysoedd Cymru, yr awydd i warchod y drefn honno a'r ymddiriedaeth sydd ynddi. Cafwyd ateb ganddo yn dweud na fyddai'r Gymraeg yn rhan o'r adolygiad.

Cafodd y Gymdeithas wahoddiad i fod yn aelod o'r Language Services External Stakeholder Forum a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder/GLlTEM ym mis Mai. Ei fwriad yw 'to facilitate a regular and constructive engagement between HMCTS and organisations representing the interpreter community'. Caiff y Gymdeithas ei chynrychioli gan y Prif Weithredwr.

**Yr Her Gyfieithu**
Parhaodd y Gymdeithas yn un o bartneriaid yr Her Gyfieithu i'r Gymraeg. Unwaith yn rhagor, y Gymdeithas a noddodd Ffon yr Her Gyfieithu o waith Elis Gwyn, Llanystumdwy, a roddir i'r enillydd, sef Robin Farrar. Trefnwyd y gystadleuaeth ar y cyd gan Wales PEN Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru a Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, gyda chefnogaeth Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, O'r Pedwar Gwynt, a'r Gymdeithas.

**Eisteddfod yr Urdd**
Ar y cyd â'r Urdd, trefnwyd y gystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19–25 yn Eisteddfod yr Urdd 2020. Serch gorfod gohirio'r Eisteddfod am yr eildro yn 2021, cyhoeddwyd yr enillwyr fel rhan o Eisteddfod T. Yr enillydd oedd Daniel O'Callaghan, Aelwyd y Waun Ddyfal, Cylch Dwyrain Caerdydd. Gwnaed y trefniadau angenrheidiol i gynnal y gystadleuaeth yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Bydd y bartneriaeth rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Gymdeithas i gynnal y gystadleuaeth hon yn parhau tan 2024.

**Gwasg Prifysgol Cymru**
Roedd y Gymdeithas yn falch iawn o wneud cyfraniad ariannol tuag at gyfrol Ben Screen, Sylfeini Cyfieithu Testun, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Dyma'r cyflwyniad cyntaf o'i fath i gyfieithu proffesiynol yn y Gymraeg, Cynhaliwyd lansiad rhithwir yn y gwanwyn ar y cyd. Cafodd aelodau'r Gymdeithas a'r Myfyrwyr Cyswllt gyfle i brynu'r gyfrol am bris gostyngol.

**Cysylltiadau eraill**
Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.

## 5.4 Ymatebion i ymgynghoriadau ac ati

Ymatebwyd i ddau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru:

Cymeradwywyd argymhellion y ddogfen ymgynghori '**Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg**'. Yn ein hymateb, mynegwyd awydd i weld y cynlluniau ynddi yn cael eu gwireddu'n fuan, a phwysleisiwyd ein hawydd fel Cymdeithas i gyfrannu at y gwaith hwn ac at gydweithio â Llywodraeth Cymru am yn hir iawn wrth i'r uned arfaethedig newydd gael ei sefydlu ac wrth iddi ddatblygu a gwreiddio fel adnodd a fydd yn gwarchod y Gymraeg ac yn cryfhau'r defnydd ohoni ym mhob agwedd ar ein bywydau. Yn ogystal ag ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad a thynnu sylw'r aelodau ato yn y Bwletin Newyddion, trefnwyd grŵp ffocws o blith cyfieithwyr llawrydd y Gymdeithas ar gais y Llywodraeth.

Canolbwyntiodd ymateb y Gymdeithas i'r ymgynghoriad '**Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg**' ar y cwestiwn yn ymwneud ag enwau lleoedd. Wrth wneud hyn, nodwyd yr angen i ystyried yr agwedd hon ar y cynllun yng nghyd-destun polisïau'r Gymraeg, yn benodol Seilwaith ieithyddol y Gymraeg (2021) a'r Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg (2018). Gwnaed hyn oherwydd bod yna gyfeiriadau at warchod enwau lleoedd ynddynt; awgrymwyd ystyried priodoldeb cyllido prosiectau ymchwil academaidd ôl- raddedig yn y maes; cytunwyd â'r angen i gynnal ymchwil i newid enwau eiddo; a nodwyd y byddai gan y Llysgenhadon Diwylliannol arfaethedig rôl greiddiol a phwysig wrth warchod enwau lleoedd.

Ar anogaeth Llywodraeth Cymru, a fu'n arwain ar y mater hwn, parhawyd i ddwyn pwysau ar Microsoft i ychwanegu'r ategyn CAP i Teams, gan gynnwys annog FIT, ITI a CIOL i ddatgan eu cefnogaeth.

# 6. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

**Amcan strategol 4 yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ei gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ei haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.**

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu gan gynnwys gwleidyddion. Roedd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg < > Saesneg, ac i sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Targedwyd y sefydliadau ac unigolion oedd ar restr ohebu gyffredinol y Gymdeithas gyda gwybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas yn ôl y galw.

Mae gwefan y Gymdeithas – https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/ – yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg. Cyhoeddwyd y wefan ar ei newydd wedd ar 1 Mawrth 2022. Mae iddi edrychiad a diwyg gwahanol a ffres, a bydd rhai nodweddion yn haws eu cyrchu, e.e. dod o hyd i gyfieithydd a gwybodaeth am ymaelodi. Mae holl destun y wefan ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) v 3.0.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae gwasanaeth ar y wefan sy'n hwylus ac yn hawdd ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyfieithydd, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Cofnod Aelodaeth pob aelod sydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r wybodaeth amdano ymddangos ar y wefan. Rhan bwysig o'r Cofnod Aelodaeth yw'r Proffil, sy'n rhoi cyfle i bob aelod gyflwyno gwybodaeth amdano'i hun.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion Cyfieithu ar y lefel Sylfaenol, a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi yn y byd cyfieithu.

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, defnyddiwyd cyfrif 'Twitter' y Gymdeithas – @cyfieithwyr – a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.